

Russell George AC

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tŷ Hywel

Bae Caerdydd

CF99 1NA

3 Hydref 2016

Annwyl Russell

**Deiseb P-04-668 Gorsaf Bŵer Tata Steel ym Mhort Talbot**

Efallai y byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Deisebau wedi bod yn trafod y ddeiseb a ganlyn:

*Testun y ddeiseb*

*Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio pob dull sydd ar gael iddi, gan gynnwys dulliau ariannol, i gefnogi'r gwaith o gwblhau'r orsaf bŵer newydd sydd wedi'i chynllunio ar gyfer gwaith dur Port Talbot. Bydd adeiladu'r orsaf hon yn creu swyddi a phan fydd yn weithredol, bydd yr orsaf yn lleihau allyriadau, yn lleihau costau rhedeg Tata ac yn helpu i ddiogelu swyddi hollbwysig yn yr ardal.*

Gwnaethom drafod y ddeiseb yn ein cyfarfod ar 13 Medi gan gytuno i ysgrifennu atoch i ofyn a yw eich Pwyllgor yn bwriadu trafod ymhellach y materion sy'n gysylltiedig â chynhyrchu dur yng Nghymru ac, os felly, a fydddech yn barod i gynnwys y mater a godir yn y ddeiseb fel rhan o'r drafodaeth honno.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb drwy e-bost at y Tîm Clercio yn [SeneddDeisebau@Cynulliad.Cymru](mailto:SeneddDeisebau@Cynulliad.Cymru).

Yn gywir,

Mike Hedges AC

Cadeirydd